OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 684 (Cy. 82)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygiadau Canlyniadol Diwygio Lles) (Cymru) 2013

*Gwnaed - - - -* *21 Mawrth 2013*
*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* *22 Mawrth 2013*
*Yn dod i rym - -* *12 Ebrill 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 71, 128, 129, 130, 131, a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygiadau Canlyniadol Diwygio Lles) (Cymru) 2013 a deuant i rym ar 12 Ebrill 2013.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Rheoliadau 1986" ("*the 1986 Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986(**2**);

ystyr "Rheoliadau 1997" ("*the 1997 Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997(**3**); ac

ystyr "Rheoliadau 2007" ("*the 2007 Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007(**4**).

**Diwygio Rheoliadau 1986**

**3.** Mae Rheoliadau 1986 wedi eu diwygio yn unol â darpariaethau rheoliad 4.

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) O.S. 1986/975 fel y'i diwygiwyd.
(**3**) O.S. 1997/818 fel y'i diwygiwyd.
(**4**) O.S. 2007/1104 (Cy.116) fel y'i diwygiwyd.

**4.**—(1) Yn rheoliad 2, yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor, mewnosoder y diffiniadau canlynol —

"(a) "the 2012 Act" means the Welfare Reform Act 2012(**5**);"; a

"(b) "universal credit" means universal credit under Part 1 of the 2012 Act;".

(2) Yn rheoliad 13(2)—

(a) ar ddiwedd is-baragraff (o), hepgorer "or";

(b) ar ddiwedd is-baragraff (p), yn lle "." rhodder "; or"; ac

(c) ar ôl is-baragraff (p), mewnosoder yr is-baragraff canlynol—

"(q) during the period beginning on 29 April 2013 and ending on 31 March 2014—

(i) he is the recipient of an award of universal credit either as a single person or as a member of a couple,

(ii) he is a child or qualifying young person for whom a recipient referred to in paragraph (i) is responsible, or

(iii) he is a member of a couple, the other member of which is the recipient of an award of universal credit as a single person.".

(3) Yn rheoliad 13(3)—

(a) ar ddiwedd is-baragraff (c), hepgorer "and";

(b) ar ddiwedd is-baragraff (d), yn lle "." rhodder "; and"; ac

(c) ar ôl is-baragraff (d), mewnosoder yr is-baragraff canlynol—

"(e) in sub-paragraph (q) "couple" has the meaning given in section 39 of the 2012 Act (couples) and "qualifying young person" has the meaning given in section 10(5) of the 2012 Act (responsibility for children and young persons).".

**Diwygio Rheoliadau 1997**

**5.** Mae Rheoliadau 1997 wedi eu diwygio yn unol â darpariaethau rheoliad 6.

**6.**—(1) Yn rheoliad 1, yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor, mewnosoder y diffiniadau canlynol —

"(a) "the 2012 Act" means the Welfare Reform Act 2012(**6**);"; a

"(b) "universal credit" means universal credit under Part 1 of the 2012 Act;".

(2) Yn rheoliad 8(3)—

(a) ar ddiwedd is-baragraff (o), hepgorer "or";

(b) ar ddiwedd is-baragraff (p), yn lle "." rhodder "; or"; ac

(c) ar ôl is-baragraff (p), mewnosoder yr is-baragraff canlynol—

"(q) during the period beginning on 29 April 2013 and ending on 31 March 2014—

(i) he is the recipient of an award of universal credit either as a single person or as a member of a couple,

(ii) he is a child or qualifying young person for whom a recipient referred to in paragraph (i) is responsible, or

(**5**) 2012 p.5.
(**6**) 2012 p.5.